

PAUL WEARING

fflwcs ac osgo

*Arddangosfa yw **fflwcs ac osgo** o waith newydd sy'n deillio o'm prosiect Material Matters i, wedi'i ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r corff o waith a arddangosir yn datgelu datblygiadau allweddol yn fy arfer i ers Gorffennaf 2019 pan oeddwn yn breswlydd yng Nghanolfan Gelfyddydau Aberystwyth, lle bûm yn fy ymddrwytho fy hun yn nhirwedd amrywiol Gogledd Cymru.*

Roedd y prosiect yn fy ngalluogi i wneud datblygiadau mewn ffurf ac arwyneb drwy gyflwyno anghymesuredd a gwthio fy nefnydd i o ddefnyddiau a dulliau gwydredd i lefelau newydd. Fe gyflwynwyd porsten fel defnydd ychwanegol i gyferbynnu â'r crochenwaith caled grog rwyf wedi'i ddefnyddio am y ddau ddegawd diwethaf.

Yr ysbrydoliaeth o hyd i'm llestri cerfluniol sydd wedi'u gwneud â llaw yw ein rhyngberthynas â thymhorau a chylchoedd natur. Caf fy nennu at y llestri fel ffurf symbolaidd sy'n adleisio'r amgylchedd adeiledig ac i gyferbynnu gwadeddau sy'n ganlyniad i rymoedd egniol o dwf a dadfeiliad sy'n rhyngweithio ac yn trawsnewid y synnwyr o drefn.

Gan gofleidio cyferbyniadau o reolaeth a siawns o fewn y broses wydro, byddaf yn rendro'r arwyneb gwadedog drwy haenau o slips a gwydreddau wedi'u brwsio ac sy'n adweithio o fewn prosesau tanio ocsidiedig. Bydd amrywio trwch yr haenau gwydredd a defnyddio defnyddiau anweddol dewisol yn dod ag amhariad arwyneb drwy bothellu, cawgio ac ymlusgo. Fe ailadroddir prosesau gwydro a thanio hyd nes y cyflawnir dyfnder optimal a chymhlethdod arwyneb.

Paul Wearing

Mae gwneud Paul ar gerdded, drwy dirluniau, amser, cyflyrau emosynol a chorfforol. Bydd ei waith yn gwro, yn codi, yn ffrwydro ac yn ymdoddi. Mae'n atgofus ac yn gnawdol, yn ei wneuthuriad ac yn y ffordd o'i wlyio. Bydd profiadau Paul yn hysbysu cnawdolrwydd ei waith a bydd ein hoffterau ni ein hunain yn ffurfio ymhellach yr hyn y byddwn yn ei brofi ohono. Fe symbylir gwneud Paul gan y ffordd y bydd yn teimlo o fod yn y dirwedd, bod yn rhan o'i amgylchoedd. Tra bo'i amgylchoedd yn edrych yn benodol ar foment arbennig: boed hynny stormus neu'n dawel, yn ddisglair neu'n synfyryol, ei synnwyr o o fod o fewn yr amgylchedd hwnnw sy'n sylfaenol i broses greadigol Paul.

Mae ei drwytho ei hun yn y dirwedd a'i hinsawdd ag effeithiau emosynol a chorfforol y bydd Paul yn eu buddsoddi yn ei arfer creadigol. Bydd tirwedd folcanig Lanzarote, atmosfferau cyfnewidiol Gwlad yr Ia a strata gogwyddol morlin Ceredigion i gyd yn cyseinio yn ei ffurfiau serameg. Felly hefyd y bydd gwendid amlygiad i'r elfennau, y parchedig ofn o sylu tuag i fyny o dan arwyneb clogwyn danheddog neu fyfyrdd o orwel tywynnwg.

Mae symudiad, golau a gwadedd i gyd yn ddylanwadau allweddol i Paul. Hyd yn oed pan oedd yn gwneud gwaith ffigurol, flynyddoedd ynghynt, roedd yna symudiad deinamig drwy'r ffurfiau, yn ddwys ac yn daer. Mae'r cyflymdra hwnnw wedi arafu ond nid felly'r dramodiad. Mae'r effeithiau a grëir gan wydreddau'n llithro ac yn fentio ar draws cyrff clai ei lestri'n ddwys ac yn drawiadol. Maent yn cyferbynnu'n hardd â'r lliwiau tawelach, graddoledig ar draws lled eliptaidd ei lestri. Bydd y paletau hyn o slips clai a gwydreddau'n altro mewn naw wrth i olau symud drostyn nhw. Mae yna olau symudol wybrennau wedi'u cipio o'u mewn, cyflwr naturiol o ffwcs y bydd Paul yn gweithio i'w hysgogi.

Bydd estheteg sydd wedi'i pherffeithio gan arlunwyr fel Kyffin Williams a Joseph Turner yn dylanwadu ar Paul. Felly hefyd serameg gain Jennifer Lee a Jack Doherty. Mae huodled y artistiaid hyn, yn amlygu amgylcheddau naturiol mor atgofus, yn ysbrydoliaeth bendant i arfer Paul. Yn fythol bresennol yn ei stiwdio ac yn adnodd cyson, anymwybodol o bosib, yw ei gasgliad o gerrig anwes: fel y bydd yn cyfeirio atyn nhw. Fe gwtogodd ei gasgliad cymedrol rai blynyddoedd yn ôl, yn ystyriol o natur pigo-pocedi. Bydd ei gerrig nid dim ond yn cael eu trysori ac yn amrywiol eang ond fe fyddan nhw hefyd â phrofiadau i Paul, yn gorfforol ac yn emosynol o leoedd a gweithgareddau. Pan fydd yn gweithio yn ei stiwdio bydd atgofion mor uniongyrchol o amser a dreuliyd allan yn y dirwedd yn effeithio o ran ei wneud.

Mae'r corff arbennig hwn o waith, ffwcs ac osgo, yn dilyn hynt taith drwy flwyddyn o archwiliad. Mae'n datgelu rhywbeth o'r broses o dreulio amser yn cerdded ac yn nodi arfordir Ceredigion. Cafodd y gweithgaredd hwn effaith ddramatig ar ysbryd Paul, yn ei nerthu'n gorfforol ac yn greadigol. Bydd y profiad hanfodol hwn yn parhau i hidlo drwy ddarluniau a cherfluniau Paul i'r dyfodol. Am y tro, mae'r esblygiad o arwynebau eang, elyptaidd, peintwrus i ffurfiau gogwyddol, tywyll a chramenog, yn ddatblygiad clir. Mae llestri Paul wedi'u dyrchafu ers amser: nodwedd derfynol sy'n rhoi ymdeimlad o ddyrchafu neu gael ei godi i'w waith. Ychwanegwch at hyn onglau symudol ei waith mwyaf diweddar, y rheiny sy'n goleddu mewn parau, ac mae egni ei lestri ar fynd.

Ceri Jones / Curadur



foto: Dewi Tannatt Lloyd

PAUL WEARING

fflwcs ac osgo

Arddangosfeydd / Sioeau Dewisol

- 2020 Serameg Paul Wearing, paentiadau Christopher Prout, Oriol Bircham
- 2020 Arddangosfa Crochenwaith Caled, Coleg Clay, Stoke on Trent
- 2019 Celfyddyd Cymru, Oita, Japan
- 2019 Paentiad David Tress, Serameg Paul Wearing, Oriol Albany, Caerdydd
- 2019 Parc Cerfluniau Swydd Efrog
- 2018 Relic, Bluecoat Display Centre, Lerpwl
- 2018 Jus de Ceramique, Keramiekcentrum Tiendschuur Tegelen, Yr Iseldiroedd
- 2018 Lasting Impressions, Oriol Genedlaethol Crefft a Dylunio, Kilkenny a Chanolfan Grefft Rhuthun
- 2018 Journey, Oriol Stratford
- 2018 Virginia Ray a Paul Wearing. Oriol Nerwydd Ashgate
- 2017 Grassi Messe, Leipzig
- 2017 Tangibles: Gwaith newydd gan Martin Pearce, Paul Wearing a Rachel Wood. Serameg Gyfoes, Llundain
- 2017 Y Lle Celf, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Ynys Môn
- 2017 Chris Prout – Arlunio a Paul Wearing – Serameg, Oriol Albany, Caerdydd
- 2017 Canolfan Celfyddyd Serameg, Caerefrog
- 2016–19 Celfyddyd Serameg Llundain, Central Saint Martins

Dyfarniadau a Gwobrau

- 2019 Cyngor Celfyddydau Cymru, Grant Cynhyrchu ar gyfer gweithwyr proffesiynol creadigol
- 2017 Cyngor Celfyddydau Cymru, Grant Cynhyrchu ar gyfer gweithwyr proffesiynol creadigol
- 2014 Cyngor Celfyddydau Cymru, Grant Prosiect i unigolion
- 2002 Artist Cymreig y Flwyddyn, Enillydd Gwobr yr Adran Grefftau, Caerdydd
- 2001 Cyngor Celfyddydau Cymru, Grant Sefydlu ar gyfer Pobl crefftau

Cyhoeddiadau

- 2021 'Cydberthnasau Elfennols', Ceri Jones. Ceramic Review 308, Mawrth/Ebrill 2021
- 2020 Gwydreddau Effeithiau Arbennig. Bloomfield, L.
- 2017 Addurniad Arwyneb. Millward, K.
- 2015 Wedi'r Rhyfel i Wedi'r Modern: A Dictionary of Artists in Wales. Jones, P. W. & Hitchman, I.
- 2015 British Studio Potters' Marks (3ydd Gol. Ed. Hazelwood, J.) Yates-Owen, E. & Fournier, R.
- 2005 British Studio Potters' Marks (2il Argraffiad.) Yates-Owen, E. a Fournier, R.
- 2003 Form: Crefft Gyfoes yng Nghymru. Wales Arts International

Gweithgaredd Proffesiynol Perthynol

- 2018– Aelod Etholedig, Cyngor Llywodraethu, Cymdeithas Crochenwyr Crefft Prydain
- 2016– Aelod Dethol, Cymdeithas y Crochenwyr Crefft
- 2014 Detholydd y rhaglen Axisweb MAstars
- 2008–13 Cadeirydd, Stiwdios Fireworks Clay, Caerdydd
- 2007– Aelod, Stiwdios Fireworks Clay
- 2000–03 Cyd-sylfaenydd, Cyd-Gyfarwyddwr ac aelod, Stiwdio ac Oriol Element, Caerdydd

Addysg

- 2003–04 MA Serameg, Serameg, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd
- 1997–00 BA (Anrh) Serameg, Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd

fflwcs ac osgo gwybodaeth dechnegol

Paul Wearing

Cyrrff clai wedi'u defnyddio

Earthstone Smooth Textured Material – ES20
"Mae ES 20 yn glai arbennig o amlbwrpas sy'n aeddfedu rhwng 1180°C – 1280°C ac yn tanio'n llwydlyn. ES 20 yn golygu ei fod yn hynod wrthiannol i gamdroad, cracio a sioc thermal. Mae'n arbennig o addas i dalu darnau mawr a bydd ychwanegiad 'moločite', sydd wedi'i ddewis yn arbennig, yn golygu ei fod yn ardderchog hefyd ar gyfer adeiladu â llaw, adeiladu slabiau a chollio."

Audrey Blackman Porcelain

"Categori: Porslen. Dull: tafu, modelu. Lliw: gwyn. Gweadedd: Llyfn iawn. Amrediad tanio: 1220 – 1280 gradd ganradd. Fe ddatblygwyd y porslen hwn ar gyfer modelu a thafu gan ddefnyddio'r defnyddiau gorau sydd ar gael."

(Gwybodaeth oddi ar wefan Valentine Clays Ltd. www.valentineclays.co.uk)

Dulliau gwneud

Bydd traed a gwaelodion yn cael un ai eu gwasg-fowldio neu eu dechrau fel potiau pinsio. Coilio yw'r prif dull a ddefnyddir. Eu rholio â llaw a'u fflatio a'u hymuno â'r bys a'r bawd. Wedi'u rholio â llaw a'u fflatio a'u huno â'r bys a'r bawd. Bydd y coil cyntaf yn cael ei ricio fel y bydd y sail i gysylltu'r uniad ond y tu hwnt i hynny ni cheir unrhyw sgorio arall. Ni ddefnyddir unrhyw slip yn y dull o uno.

Fe weithir yr arwyneb ag arennau rwber ac yn aml fe adewir rhyw dystiolaeth o uniadau'r bys a'r bawd fel sail weadeddol i'r gwyrddiad.

Slips

Bydd slips un ai'n borslen 100% gydag ychwanegiadau o ocsidau a staenau masnachol neu 50/50% clai tsieni/clai pêl gydag ychwanegiadau o ocsidau a staenau masnachol.

Gwydreddau

Yn gyfredol fe ddefnyddir cyfanswm o chwech o wydreddau folcanig yn cynnwys silicon carbid. Mae hwn yn ddeunydd allweddol sy'n rhyddhau nwy o fewn y tanio sy'n bybylu ac yn pothellu drwy'r arwyneb gwydredd tawdd drwyddo draw. Mae pob un â chyfuniad gwahanol o ocsidau i rendro amrywiaeth o liwiau ac arlliwiau.

Defnyddir pedwar o wydreddau bariwm carbonad-seiliedig hefyd. Mae dau'n cynnwys carbonad lithiwm sydd, ynghyd â bariwm, yn gwella ymateb llw'r gymysgedd o ocsidau sydd wedi'i ychwanegu i bob gwydredd.

Mae tri gwydredd yn defnyddio magnesiwm carbonad fel yn brif ddeunydd yn cael eu defnyddio hefyd. Mae'r deunydd hwn yn darparu'r arwyneb cracellu ac ymlusgo ac mae pob gwydredd â gwahanol ocsidau ynddo er mwyn amrywiaeth llw.

Mae'r gwydreddau ychwanegol a ddefnyddir yn ddolomeit-seiliedig ac un arall yn seiliedig ar titaniwm ocsid.

Bydd y slips a'r gwydreddau i gyd yn cael eu tywallt i du mewn y gwaith a'u brwsio ar y tu allan. Fe roddir y slips a'r gwydreddau ar ôl y tanio bisque ac fe roddir pob un ond un ar un adeg cyn y tanio gwydredd ocsidiedig. Defnyddir conau saith ac wyth fel canllawiau gwaith gwres a bydd y tymheredd yn gyffredinol yn cofrestru oddeutu 1240 gradd ganradd.

Cynhelir ail daniad gwydredd fel rheol oddeutu 1000 gradd gyda chymhwysiad olaf o wydredd bariwm a lithiwm. Gellir cynnal sesiynau lluosog o ail-wydro ac ail-danio ar amrywiaeth o dymheredd hyd nes y cyflawnir yr optimwm o ran dyfnder arwyneb a llw, arllw ac amrywiad a chydbwysedd gweadeddol.



ffoto: Dewi Tannatt Lloyd